
## Sut ydw i’n blocio ac yn dileu?

### Blocio a dileu Ffrindiau

Mae blocio rhywun yn golygu y byddan nhw’n cael eu rhwystro rhag anfon Snaps a Sgyrsiau atoch chi, ac yn cael eu rhwystro rhag gweld eich Straeon. Mae dileu rhywun yn golygu na fyddan nhw ar eich rhestr Ffrindiau mwyach, ond mae’n bosibl y byddan nhw’n dal yn gallu gweld eich Snaps a’ch Straeon. Mae hyn yn dibynnu ar eich gosodiadau preifatrwydd.
I flocio neu i ddileu un o’ch cysylltiadau:



- Tarwch yr **eicon Gêr** sydd wrth ymyl eu henw, a tharwch **Manage Friendship**
- Dewiswch **Block** i’w hatal nhw rhag anfon Snaps a Sgyrsiau neu i'w hatal rhag gweld
- Dewiswch **Remove Friend** i gael gwared arnyn nhw o’ch rhestr Ffrindiau
- Er mwyn blocio rhywun sydd ddim ar eich rhestr Ffrindiau, cychwynnwch sgwrs gyda nhw drwy symud eich bys ar eu henw ar y sgrin Chat. Tarwch y botwm yn y gornel chwith uchaf i fynd ar eu proffil a dewis **Block**

Er mwyn dad-flocio defnyddiwr:

- Tarwch eich **Proffil** ar dop y sgrin Camera. Yna, tarwch yr **eicon Gêr** a sgrolio lawr i **Account Actions** a tarwch **Blocked**. Byddwch yn gallu gweld rhestr o’r defnyddwyr Snapchat rydych chi wedi’u blocio. Tarwch yr **X** wrth eu henw er mwyn eu dad-flocio
- Yn dibynnu ar eich gosodiadau preifatrwydd, efallai y bydd angen i chi ailychwanegu eich gilydd fel Ffrindiau er mwyn gallu anfon Snaps a Sgyrsiau at eich gilydd.

## Sut galla i gadw rheolaeth?

### Newid eich gosodiadau preifatrwydd

Yn ddiofyn, dim ond defnyddwyr Snapchat rydych chi’n eu hychwanegu i’ch rhestr Ffrindiau sy’n gallu anfon Snaps atoch chi.

Os ydy rhywun sydd ddim yn Ffrind i chi yn ceisio anfon Snap atoch chi, byddwch yn cael hysbysiad i ddweud eu bod wedi eich ychwanegu chi. Byddwch ond yn cael Snap os ydych chi’n eu hychwanegu nhw i’ch rhestr Ffrindiau.

Er mwyn newid pwy sy’n gallu anfon Snaps atoch chi a gweld eich Straeon:

- Tarwch eich **Profile** yng nghornel chwith uchaf y sgrin camera i fynd ar eich proffil. Yna tarwch yr **eicon Gêr** yng nghornel dde uchaf y sgrin a sgroliwch i lawr i’r adran **Who Can**

Gyda Snaps, tarwch **Contact Me** a dewiswch naill ai:

- **Everyone** - Mae hyn yn caniatáu i unrhyw un anfon Snaps atoch chi (hyd yn oed dieithriaid)
- **My Friends** - Dim ond eich Ffrindiau fydd yn gallu anfon Snaps atoch chi


Gyda’r nodwedd Straeon, tarwch **View My Story** a dewis naill:

- **Everyone** - Mae hyn yn caniatáu i unrhyw un weld eich Straeon (hyd yn oed dieithriaid)
- **My Friends** - Dim ond eich Ffrindiau fydd yn gallu gweld eich Straeon
- **Custom** - Dewiswch pa Ffrindiau sy’n gallu gweld eich Straeon

**Sylwer**: Er mwyn clirio sgwrs, tarwch eich **Profile**. Yna tarwch yr **eicon Gêr** a sgroliwch i lawr i ddod o hyd i **Clear Conversations**. Tarwch yr **X** wrth ymyl enw er mwyn clirio’r sgwrs.

### My Eyes Only

Gallwch symud eich lluniau i’r ffolder hon yn yr adran Memories.



Caiff ei diogelu gyda PIN, felly, os bydd eich ffôn yn cael ei ddwyn neu os ydy’ch cyfrif yn cael ei hacio, does neb yn gallu gweld eich Snaps heb eich PIN.

Os nad ydych chi erioed wedi defnyddio My Eyes Only, bydd angen i chi ddilyn y broses osod er mwyn dewis eich cod cyfrin.

## Ble ga’ i ragor o gymorth?

**Canolfan Gymorth Snapchat:** snapchat.com/safety

**Cymorth Snapchat:** support.snapchat.com

**Y newidiadau diweddaraf ar flog Snapchat:** snapchat-blog.com

**Y Ganolfan Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn y DU:** saferinternet.org.uk


**Llinell Gymorth i Weithwyr Proffesiynol ar Ddiogelwch Ar-lein:** saferinternet.org.uk/helpline

**Rhoi gwybod am Gynnwys Niweidiol** reportharmfulcontent.com

**Rhoi gwybod am gam-drin neu feithrin perthynas amhriodol i’r CEOP:** ceop.police.uk

**Rhoi gwybod am ddelweddau o gam-drin plant i’r IWF:** iwf.org.uk

Mae copi o’r rhestr wirio hon ynghyd â deunyddiau Diogelwch Ar-lein eraill ar gael yn y siop SWGfL: swgflstore.com



SWGfL Safe, Secure, Online
UK Safer Internet Centre

Co-financed by the European Union
Connecting Europe Facility

04/20

# Snapchat


Rhestr Wirio Preifatrwydd a Diogelwch

# Beth yw Snapchat?

Mae Snapchat yn ap anfon lluniau. Gall defnyddwyr Snapchat dynnu lluniau, recordio fideos, ychwanegu testun a darluniau a'u hanfon at Ffrindiau.  Bydd y Snaps yma'n diflannu ar ôl eu gweld, neu o fewn 24 awr (am Stori). Pan fydd pawb sydd wedi ei dderbyn wedi gweld Snap, bydd yn cael ei ddileu yn awtomatig o weinyddion Snapchat. Yn nodweddiadol, does dim modd i neb adfer Snaps sydd wedi cael eu hagor o weinyddion Snapchat, am unrhyw reswm.

## Cyfyngiadau Oed

Nid yw Snapchat yn addas ar gyer plant dan 13 oed. Dylai plant rhwng 13-17 oed gael caniatâd gan riant neu warcheidwad cyfreithiol i ddefnyddio'r ap. Gellir dileu cyfrif Snapchat drwy fynd i https://accounts.snapchat.com/accounts/delete_account a rhowch enw defnyddiwr a chyfrinair. Os yw Snapchat yn cael gwybodaeth sy'n dweud fod defnyddiwr o dan 13 oed, byddan nhw'n cau'r cyfrif.




**Sylwer**: Os ydych chi'n anghofio eich cyfrinair fe allwch chi ofyn i Snapchat am gael ailosod eich cyfrinair yn: https://accounts.snap-chat.com/accounts/password_reset_request

# Sut ydw i'n dod o hyd i fy ffrindiau?

## Dod o hyd i ffrindiau ac ychwanegu ffrindiau

- Tarwch eich **Profile** yng nghornel chwith uchaf y sgrin Camera
- Tarwch yr eicon **Add Friends**
- Gallwch ychwanegu ffrindiau gan ddefnyddio enw defnyddiwr, llyfr cyfeiriadau eich dyfais, Snapcode, neu'r nodwedd Quick Add. I ychwanegu ffrindiau o'ch cysylltiadau, bydd gofyn i chi ddilysu eich rhif ffôn. Ar ôl i chi ei ddilysu, bydd yr holl gysylltia-dau ar eich ffôn sydd â chyfrif Snapchat yn cael eu harddangos. Bydd ffrindiau nad oes ganddyn nhw Snapchat hefyd yn cael eu harddangos, a gallwch eu gwahodd i'w ddefnyddio drwy anfon neges SMS atyn nhw.
- •I ychwanegu ffrind sydd wedi'ch ychwanegu chi eisoes, tarwch Add Friends, ewch yn ôl i'r adran Added Me, dewch o hyd i'w enw defnyddiwr yn y rhestr, yna tarwch yr eicon Ychwanegu wrth ymyl eu henw.




Os nad ydych chi eisiau i'ch ffrindiau ddod o hyd i chi trwy eich rhif ffôn:

- Tarwch eich **eicon Proffil** yng nghornel chwith uchaf y sgrin Camera. Yna, tarwch yr eicon Gêr yn y gornel dde uchaf
- Tarwch **Mobile Number**
- Dad-diciwch **Allow my friends to find me**

# Sut ydw i'n rhoi gwybod bod problem?

Mae Snapchat yn annog pobl i fynegi eu hunain, ond maen nhw am weld defnyddwyr Snapchat yn defnyddio'r ap mewn modd diogel fel eu bod yn mwynhau. Dydy Snapchat ddim yn goddef 'Snaps' sy'n rhannu:



- Pornograffi neu noethni sy'n cynnwys pobl o dan 18 oed
- Pethau sy'n ymyrryd ar breifatrwydd neu'n dynwared pobl eraill
- Bygythiadau, aflonyddu neu fwlio pobl eraill
- Annog rhywun i hunan-niweidio.

Mae'n bosibl y bydd Snapchat yn cael gwared ar gynnwys o'r fath ac yn atal cyfrifon a byddan nhw'n cael eu gwahardd rhag defnyddio Snapchat yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghanllawiau Cymunedol Snapchat: https://support.snapchat.com/en-GB/a/guidelines

Mae dulliau adrodd Snapchat yr un peth ar gyfer pob dyfais. Gall defnyddwyr ffonau symudol a dyfeisiau tabled ddod o hyd i'r holl lwybrau i roi gwybod am bryderon drwy daro ar eich eicon Proffil ar sgrin y camera, taro'r eicon Gêr, a sgrolio i lawr i Support. Er mwyn rhoi gwybod am fater ar y bwrdd gwaith, ewch i: https://support.snapchat.com/en-GB/i-need-help

# Beth arall alla' i ei wneud ar Snapchat?


## Straeon

Mae 'Straeon' yn nodwedd sy'n eich galluogi chi i wneud cadwyn o Snaps i greu naratif a fydd yn para 24 awr.

Yn dibynnu ar eich gosodiadau preifatrwydd, bydd y lluniau a'r fideos sy'n cael eu hychwanegu yn y nodwedd Straeon yn gallu cael eu gweld gan ddim ond eich ffrindiau (yn ddiofyn),  holl ddefnyddwyr Snapchat, neu gan grwpiau rydych chi wedi'u creu.

## Hidlyddion, Lensys a Sticeri

Mae'r nodwedd Filters yn ffordd llawn hwyl o addasu eich Snaps gyda throshaenau fel golygfeydd a newidiadau i'ch ymddangosiad.



Mae Geofilters yn unigryw ac yn benodol i leoliadau, ac felly mae angen galluogi gwasanaethau lleoliad eich dyfais er mwyn eu defnyddio.

Os ydych chi'n ychwanegu Geofilters i'ch Snap neu'ch Straeon, rydych chi'n cyhoeddi lle rydych chi i bawb sy'n gallu eu gweld.

Mae'r nodwedd Lenses yn ychwanegu effeithiau arbennig a synnau amser real at Snap.

Lluniau a chartwnau lliwgar yw Sticeri, sy'n rhoi ffyrdd eraill o fynegi eu hunain i ddefnyddwyr.

## Darganfyddwch

Mae Snapchat hefyd yn cynnig newyddion ac adloniant drwy'r dudalen **Discover**. Yn ogystal â gweld straeon eich Ffrindiau, gallwch bori drwy sianelau gan gyhoeddwyr sydd wedi ennill eu plwy ac sy'n creu eu cynnwys eu hunain.

Mae'r adran **Friends** ar frig Discover yn dangos Straeon eich Ffrindiau.


Mae'r adran **Subscriptions** yn dangos yr holl Straeon a'r Rhaglenni rydych chi wedi tanysgrifio iddyn nhw.

Mae gan yr adran **For You** Raglenni a Straeon sydd wedi'u noddi.

## Fideos a thestun ar Chat

Fel Snaps, mae'r sgyrsiau hyn yn diflannu pan fydd y derbynnydd yn gadael y sgrin Chat. Fodd bynnag, yn y nodwedd Chat, mae gan ddefnyddwyr opsiwn o gadw negeseuon yr hoffen nhw eu cadw. Os byddwch yn cadw sgwrs, bydd eich Ffrind yn gallu gweld eich bod wedi gwneud hynny -  gan y bydd cefndir llwyd tywyll y tu ôl i'r neges.

## Memories



Yn y nodwedd Memories ceir casgliad personol o'r Snaps a'r Straeon rydych chi wedi'u cadw. Gellir defnyddio'r nodwedd Memories i greu Straeon a Snaps newydd. Gall defnyddwyr Snapchat hefyd ddewis cadw lluniau penodol o'r nodwedd Memories yn yr adran My Eyes Only, sy'n cael ei diogelu gan gyfrinair.